**EITEM AR YR AGENDA: 4**

# PANEL GWEITHREDOL
# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**9fed HYDREF 2006**

**CYNLLUN GWELLA 2006-07 DRAFFT**

**Adroddiad gan Dawn Docx**
**Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael)**

## Diben yr Adroddiad

**1.** I roi gwybod i'r aelodau am y trefniadau dros dro ar gyfer llunio Cynlluniau Gwella Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru yn 2006-07.

## Cyflwyniad

**2.** Cadarnhaodd y Fframwaith Tân ac Achub Cenedlaethol y byddai disgwyl i Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru i gydymffurfio â'r Rhaglen Cymru ar Gyfer Gwella – Tân ac Achub (WPI-FRA).

**3.** Gohiriwyd y gwaith o ddatblygu a gweithredu canllawiau y Rhaglen Wella ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub tra'r adolygwyd y Rhaglen Wella ar gyfer Awdurdodau Lleol.

**4.** Erbyn hyn mae'r canllawiau drafft y Rhaglen Wella – Awdurdodau Tân ac Achub yn tynnu tua'r fersiwn terfynol at ddiben ymgynghori. Rhagwelir y bydd y fersiwn terfynol yn cael ei gyhoeddi cyn y 1af Ebrill 2007.

## Cefndir

**5.** Yng Nghynllun Perfformiad Gwerth Gorau 2004-05 cyfeiriwyd at y disgwyliad y byddai'r cyfrifoldeb am wasanaethau tân ac achub yng Nghymru yn cael eu datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn y dyfodol agos, ac at fwriad yr Awdurdod i gynhyrchu Cynllun Gwella blynyddol yn unol â'r canllawiau newydd yn y dyfodol.

**6.** Oherwydd yr oedi wrth gyhoeddi'r arweiniad ar y Rhaglen Wella – Awdurdodau Tân ac Achub, paratowyd Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau'r Awdurdod yn 2005-06 o dan drefniadau dros dro a gytunwyd arnynt yn wirfoddol gan yr Awdurdodau Tân ac Achub.

**7.** Oherwydd fod y Cynulliad yn parhau i ddatblygu'r Rhaglen Wella – Awdurdodau Tân ac Achub bu'n rhaid defnyddio canllawiau dros dro unwaith eto ar gyfer 2006-07. O dan y Rhaglen Wella gelwir Cynlluniau Perfformiad Gwerth Gorau yn Gynlluniau Gwella.

**8.** I gymhlethu pethau ymhellach arweiniodd camgymeriad wrth ddrafftio'r Gorchymyn Llywodraeth Leol (Cynlluniau Gwella)(Cymru) 2006 i Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru gael eu cynnwys yn anfwriadol o fewn gofynion y Gorchymyn, tra i'r rhai yn Lloegr gael eu heithrio.

**9.** O ganlyniad, ym mis Awst, hysbyswyd Awdurdodau Tân ac Achub yn Nghymru gan y Cynulliad y byddai'n rhaid iddynt gydymffurfio â'r Gorchymyn a chynhyrchu Cynllun Gwella erbyn 31ain Hydref.

**10.** Mae'r arweiniad ar Gynlluniau Gwella a anfonwyd at Awdurdodau Lleol yng Nghylchlythyr 28/2005 yn gofyn bod "rhaid i'r Cyngor llawn roi sêl bendith i gynlluniau gwella cyn eu cyhoeddi; nid cyfrifioldeb Swyddog Gweithredol neu'r Bwrdd yn unig mohoni"

## Gwybodaeth

**11.** Mae'r Cynllun Gwella ar gyfer 2006-07 drafft, sy'n atodedig, yn cydymffurffio â threfniadau dros dro y Cynulliad ar gyfer eleni.

## Argymhellion

**12.** Fod yr Aelodau'n

**12.1** nodi'r gofyniad i gyhoeddi Cynllun Gwella ar gyfer 2006-07 cyn 31ain Hydref 2006; ac

**12.2** yn cymeradwyo'r Cynllun Gwella 2006-07 ar gyfer ei gyflwyno i gyfarfod nesaf yr Awdurdod Tân ac Achub ar 23ain Hydref 2006.